

# Cylchlythyr P30

Rhifyn y Gaeaf

The quarterly newsletter from the U3A, in Welsh about Welsh and Welsh things for learners and fluent speakers.



Rhifyn 1

Rhagfyr 2017

**Dyma fe, y rhifyn cyntaf** o gylchlythyr rwy'n hyderu ddaw atoch unwaith bob tymor. Bydd y nesaf yn y gwanwyn, cyfan ar lein yn cael ei anfon at bob cydlynnydd lleol dros Brydain; (ac fe synnech chi ble mae dosbarthiadau Cymraeg, gweler isod), wedyn caiff ei anfon at bawb ym mhob ardal. Gareth W. Williams ydw i, rywsut wedi dod yn ymgynghorydd Cymraeg P30; (ddim y llun gorau ond dydy'r camera ddim yn dweud celwydd!) Gan taw dyma'r rhifyn cyntaf does dim llawer i sôn amdano yma, ond gobeithio bydd hynny yn newid ac y byddwch chi yn anfon pytau o newyddion ata i i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf. Fy nghyfeiriad e-bost yw:

**bocspostgap@btinternet.com**

Bydd croeso i luniau a thestun am bethau a fu a rhai sy i ddod.

Fe fydda i'n cyfyngu'r cynnwys ar gyfer pethau yn ymwneud â Chymru neu'r Gymraeg ond bydd croeso i gyfraniadau gan siaradwyr rhugl a dysgwyr ble bynnag y bo chi.

Felly ymlaen â ni!

## Cystadleuaeth Stori Fer

Y testun oedd Stori yn dechrau gyda'r geiriau:


*Ar y bwrdd coffi, roedd dysgl las a gwyn, ...*

Yr un testun oedd ar gyfer iaith gynaf ac ail iaith a cafwyd dwy stori rymus.

Mae'r ddwy isod



*Marlis Jones, enillydd y stori fer iaith gyntaf yn derbyn ei gwobr isod*



## Dosbarthiadau Cymraeg. Ble???

Pan ddechreuais i, doedd fawr o syniad gen i beth oedd hyd a lled y gwaith o fod yn ymgynghorydd i P30, felly mi es ati i syrffio rownd y wefan i chwilota am ddosbarthiadau Cymraeg ac anfon neges atyn nhw i gynnig help. Hyd yn hyn ces i ymateb o: Fanceinion, Kingston upon Thames, swydd Caint, Haydon Bridge (rhwng Newcastle a Carlisle) a Much Wenlock (yr ochr draw i'r ffin), heb law am ymatebion o Gymru. Ond yn fwyaf nodedig oedd yr un o St Albans lle mae tri, ie **tri** dosbarth!

Yn y fan honno yr ymosododd Buddug, un o'n arwresau Celtaidd, ar y Rhufeiniaid a'u curo'n rhacs. Oes cynllwyn i efelychu ei champ, sgwn i?

Ar y bwrdd coffi, roedd dysgl las a gwyn, ac ynndi, roedd papur seloffen wedi ei wthio i mewn yn flêr. Bob hyn a hyn, rhoddai Alys ei llaw i mewn yn y ddysgl, a mwytho'r papur gloyw.

'Mae isio taflu'r papur 'na,' meddai llais o'r tu ôl iddi.

Cipiodd Alys y ddysgl oddi ar y bwrdd, a gwasgodd hi i'w mynwes esgyrnog.

'Dydy o'n dda i ddim,' meddai'r llais eto. 'Mae o'n hel llwch a baw; mae o yna ers pythefnos o leia'.

Ateb Alys oedd gfael yn dynnach fyth yn y ddysgl. Clywodd ochenaid o rwystredigaeth y tu ôl iddi a llais Maureen yn dweud dan ei gwynt 'Mae isio mynadd.' Yna mewn llais cyffredin ychwanegodd, 'Ma' Eirlys yma.'

Trodd Alys ei phen yn araf i weld Maureen, un o'r gofalwyr yn mynd drwy'r drws, gan wneud lle i ddyne ddiarth ddod i mewn.

Pwy ydy hon? meddyliodd. Be ma' hi isio? Holi a holi eto decini, fel mae pawb sy'n dod yma. 'Dydyn nhw'n dallt dim,' meddai i gyfeiriad ei chymydog yn y gadair nesaf, ond roedd Gwen yn pendwmpian a'i cheg yn agored, ei gên yn isel ar ei brest.

'Su'dach chi?' Holi heb aros am ateb.

'Be s'ginoch chi?' Ceisiodd y ddyne ddiarth afael yn y ddysgl, ond tarodd Alice ei llaw ymaith yn filain.

'Peidiwch! Fi sy' pia hon. Fy afon i ydy hi. Nan' Ffridd ydy hon. John 'y mrawd a finna' sy' piau hi. Ryda'n ni'n mynd i ddal brithyll yma ar ôl cinio. 'Da'n ni'n mynd i'w cael nhw i swper. Wedi ffrio. Efo halan a brechdan. Dw i 'di bod yn nôl menyn fresh gin Anti Pol.'

'Gadwch lonydd iddi!' gwaeddodd wrth i'r ddyne geisio eto i gymryd y ddysgl o'i dwylo.

'Mam! Eirlys sy'ma.' meddai'r ddyne gan gasglu hynny a allai o amynedd i'w llais. Doedd hi ddim yn hawdd dod yma i 'Awelon' i weld ei mam bob pythefnos a ddim synnwyr o sgwrs i'w gael.

'Ro'n i'n 'nabod hogan fach o'r enw Eirlys ers talwm.'

'Oeddech siŵr - fi. Dw i'n ferch i chi.'

Celwydd eto! Dyne yn ei hoed a'i hamser oedd hon, hogan fach benfelen oedd Eirlys. Hogan fach isio pethau crand fel y gwelai gan ei harwyr yn y ffilmiau ac yn y cylchgronau swmpus, os hen, a ddeuai Mrs Robertson-Fyffe i ddiddanu'r cleifion a arhosit yn amyneddgar yn ystafell aros y syrjeri lle'r oedd Alys yn dderbynwraig i Dr Hughes.

Doedd Alys ddim wedi gweld Mrs Robertson-Fyffe ers amser. Tybed mai hi oedd wedi anfon y ddyne ddiarth yma? Roedd hi wedi gwisgo'n grand fel yr arferai Mrs Robertson-Fyffe wisgo - lliwiau'n cydweddu, sgarff hir o sidan yn cyhwfan oddi ar ei hysgwydd chwith, a chwml o'r un persawr drudfawr o'i hamgylch.

'Roeddech chi a John yn dal brithyll yn yr afon?' Dyma'r ddyne yn dechrau ar ei holi. Ond doedd Alice ddim am roi i mewn iddi. Roedd rhyw bwrpas mileinig y tu ôl i'r cwestiynu. Roedd y ddyne yma am ddwyn ei hatgofion. Roedd hi am eu rhoi fesul un yn y bag lledr mawr oedd ganddi a mynd â nhw i ffwrdd a'u gwerthu nhw yn Llundain neu Manceinion. Fe fyddai pobl Llundain wedyn yn eu malu a'u difetha fel y gwnaeth y bobl hynny efo bwthyn Nant y Ffridd.

'Oeddech chi'n cael lot o frithyll?' Hen stori gyfarwydd i Eirlys, ond roedd yn edau frau i gysylltu ag atgofion Alys, ac roedd Sister Ann yn eiddgar i'r ymwelwyr

annog y preswylwyr i ail fyw eu plentyndod.

'Dw i'n siŵr 'u bod nhw'n flasus. Ffrio nhw ar badell ar y tân glo, oeddech chi'n de? Dw i'n cofio 'Dewyrth John yn dod â rhai i ni.'

Ffrwyth dychymyg Eirlys oedd cael brithyll gan ei hewyrth, roedd hwnnw wedi boddi ym mhwill yr hen chwarel pan oedd yn bymtheg oed. Ond llwyddodd y celwydd golau i agor dôr y cof a byrlymodd Alys straeon digon cymysglyd am gasglu mwyar duon a chnau, dringo coed, adeiladu tŷ o frigau yn y goedwig, chwarae cuddio yng ngweddillion cabanau'r hen chwarel lechi, a hel gwichiaid ym mhyllau creigiau glan y môr a'u berwi i swper.

Newidiai Alys enwau'r llefydd o dro i dro, ac roedd enwau'r plant a gyd-chwaraeai â hi yn rhychwantu'r cenedlaethau hefyd. Jason a Kayleigh yn cyd-chwarae gyda'u hen ewyrth! Porthai Eirlys y storiwraig o bryd i'w gilydd i gadw'r felin i fynd, ond roedd ei meddwl yn ei byd ei hun.

Yn ddeunaw oed, gwelai fywyd pentref gwledig yn ddiflas. Doedd dim dyfodol iddi mewn lle mor fach a dinod. Mynnodd fywyd byrlymus y dref a rhuthr cyffrous swyddfeydd ariannog byd Busnes. Ffarweliodd â'i theulu a'i ffrindiau, gan addo cadw mewn cysylltiad rheolaidd. Braenodd yr addewid yn fuan. Disodlwyd y teulu a'r ffrindiau gan gyd weithwyr cyfoethog, a mabwysiadodd hithau eu dyheadau ariangar hunanol hwythau.

Ymddangosai yn Nant y Ffridd gyda'i gŵr a'i phlant o bryd i'w gilydd ond galwad byr oedd yr ymweliadau yma. Doedd bwthyn gwledig diymhongar ddim yn lle addas i Humphrey Watts-Johnstone, Jason a Kayleigh aros ynddo, eto roedd yn neis iawn i'r plant weld 'the quaint little Welsh cottage' fyddai rhyw ddiwrnod yn ddelfrydol i'w wneud i fyny fel 'holiday retreat'.

Darfu'r freuddwyd yma pan gondemniwyd yr adeilad gan beri i Alys symud i fyngalo bach yn y dref. Roedd yn haws i'r teulu crand alw yn y byngalo'n flynyddol, a maint yr annedd yn ddigon bach i roi rheswm pam na allent aros yno.

Yn llygaid y cyhoedd roedd Eirlys yn llwyddiannus; gŵr cyfoethog, tŷ crand, car pwerus, a Jason a Kayleigh wedi addysg breifat, mewn swyddi bras fel eu rhieni. Do fe gawsant bopeth allasai arian ei brynu, ond, pe cyrhaedden nhw eu canfed blwyddyn, pa atgof fyddai ganddynt am eu plentyndod? Doedd dim cymhariaeth rhwng chwarae allan yn y wlad gyda ffrindiau ffyddlon yn dyfeisio gemau syml, â chwarae gemau ar gyfrifiaduron; na chwaith rhwng sicrwydd cariad cartref diogel, sefydlog os tlawd, ag ansefydlogrwydd rhieni cwerylgar anffyddlon, waeth pa mor foethus fyddai cragen y cartref.

Roedd hi wedi hen galedu i'r ffaith fod Jason a Kayleigh'n 'rhy brysur' i ddod adref i'w gweld, ac yn derbyn hynny fel un o ffeithiau bywyd, fel y ffaith fod Humphrey a hithau'n byw eu bywydau ar wahân. Ond doedd ei mam ddim o'r un anian. Roedd ei gwerthoedd hi'n ddwfn yng nghefn gwlad, teulu, câr a cheraint; gonestrwydd, ffyddlondeb, a chonsyrn am eraill. Yn ei byd bach roedd yn hapus a bodlon gyda'i hatgofion.

Sylweddolodd Eirlys fod swigod byr hoedlog breuddwydion ei hieuenctid wedi diflannu i unigrwydd hunanoldeb.

Yn raddol arafodd y sgwrsio undonog. Roedd Alys wedi chwythu ei phlwc. Caeodd ei llygaid, disgynnodd ei gên ar ei brest. Llaciodd ei gafael yn y ddysgl. Cymerodd Eirlys y ddysgl las a gwyn yn araf a thyner o afael Alys. Tarodd gusan gyflym ar y boch rychiog.

'Wela i chi mis nesa,' sibrydodd, gan wybod fod mis yn amser hir ac y gallai llawer o bethau ddigwydd yn y cyfamser. Gosododd y ddysgl yn ofalus ar ganol y bwrdd coffi, a gadawodd yr ystafell yn dawel.

Ar y bwrdd coffi, roedd dysgl las a gwyn, ac ynndi roedd pâr o clustdlysau. Mi blygodd Dafydd a cododd un ohonyn nhw; roedd y saffir yn serennu yn y golau tân. Fel llygaid Sadie, meddylodd Dafydd. Llygaid ddrygionus, llawn o hwyl ac addewid. Mi wenodd o. Roedd hi'n mor brydferth efo gwallt coch, brychni a phanlau. Oedd, roedd o wedi gwneud dewis da ... y tro yma. Roedd o'n teimlo'n sicr bod Sadie yn y ferch orau iddo fo. Ond, pasiai hi'r prawf?

Mi wnaeth Dafydd edrych ar y silff ben tân. Roedd y ffotograff ei fam yn syllu yn ôl arno fo o'r ffrâm arian, roedd ei llygaid hi mor anghymeradwyaeth âg erioed. Oedd o wedi ei phlesio hi, erioed? Roedd ganddo fo frith gof, pan oedd o'n blentyn ifanc iawn, fod yn breichiau ei fam ond, er fod o'n trio'n galed, roedd o'n methu'n lân â chofio'r manylion. Oedd o'n brifo? Oedd hi'n ei gysuro fo? Efallai roedd o wedi ei ddychmygu fo, achos wnaeth o ddim digwydd eto, roedd o'n sicr. Roedd ei fam ei gadw fo o hyd braich trwy'r amser.

Roedd Manon Jones yn ddynes gryf ac yn ffyrnig efo tafod fel rasel. Doedd hi erioed wedi maddau i dad Dafydd ar ôl iddo fo ei gadael hi i fagu baban ifanc iawn ar ei phen ei hunan.

'Cachgi, ydy o,' dwedodd hi, dro ar ôl tro, 'mae o'n dyn diwerth ac rydyn ni'n well hebdo fo.'

Roedd Dafydd yn gallu clywed ei llais hi rŵan, yn uchel ac aflafar. Roedd hwn wedi ei boeni fo am flynyddoedd.

'Wyt ti'n fel dy dad ... diwerth! Dw i ddim yn gwybod pam dw i'n trafferthu efo ti ... dwyt ti ddim yn gwrando arna i ... dwyt ti erioed yn gwneud fel dw i'n dweud...'

Roedd yr araith lem yn ddiiddiwedd.

Ond, roedd Dafydd yn gwneud beth oedd ei fam yn dweud wrtho fo. Bob amser. Roedd o'n trio'n galed i ymddwyn yn dda iawn; roedd o eisiau dim ond gair o ganmoliaeth, coflaid neu gusan. Ond doedd hwn byth yn digwydd. Weithiau, roedd o wedi brifo ei hunan, yn gobeithio am gysur ond roedd o'n gobaith gwan. Unwaith, torrodd Dafydd ei fys efo cyllell fara, wedyn roedd 'na lawer o waed a meddylodd o fod o'n mynd i farw. Ond, wnaeth ei fam dim ond rhoi rhwymyn o gwmpas ei law a dwedodd wrtho fo,

'Ti'n bachgen trwsgl ...ti'n twp, fel croes brws ... yr un fath â dy dad. Dw i wedi cael llond bol!'

Yn y nos, roedd Dafydd yn gorwedd yn ei wely, yn crynu fel deilen, yn teimlo'n unig go iawn. Dim ond llais ei fam roedd o'n medru clywed yn ei ben, yn ei wawdio fo am oriau di-ben-draw. Hyd yn oed pan oedd ei fam yn chwyrru yn yr ystafell nesaf, roedd y llais yn mynd ymlaen ac ymlaen. Meddylodd Dafydd yn aml am ei dad pan oedd o'n gorwedd ar ddi-hun yn ei wely; yn rhyfeddu ble oedd o, a beth oedd o'n gwneud. Roedd o'n dychmygu eu gyfarfod ac roedd o'n hiraethu i glywed llais ei dad, ond yr unig sŵn roedd o'n clywed oedd y llais ofnadwy ei fam. Y sŵn yna roedd y cefndir i'w blentyndod.

Nid oedd Dafydd cael chwarae gyda plant eraill pan oedden nhw'n curo ar y drws ar ôl ysgol.

'Rhaid i ti gael gwared â nhw!' gwaeddodd ei fam.

Felly, wnaeth o. Dyfeisiodd o esgusodion pam fod o ddim yn medru chwarae efo nhw fel ... roedd ganddo fo ddolur gwddw, neu boen yn ei stumog, neu gur pen, neu roedd rhaid iddo fo orffen ei waith cartref ... ac yn y blaen. Roedd o'n gwybod ar ôl iddo fo orffen ei waith, rhaid iddo fo eistedd ar gadair gegin a myfyrio ar ei bechodau.

Achos, roedd 'na lawer ohonyn nhw: dim yn edrych ar ei fam pan oedd o'n cael pryd o dafod, yn rhedeg dros y lawnt, yn troedio ar y blodau pan oedd o'n nôl ei bêl yn ôl, yn dwad â cathod crwydro yn y tŷ. Wel, dim ond un cath, meddylodd Dafydd. Roedd o wedi cuddio'r

gath yn y sied yn yr ardd ac wedi rhoi llefryth iddi hi ond, y diwrnod wedyn, roedd 'na chwe chath fach, a roedd y gath wedi rhedeg i ffwrdd.

'Na ato Duw!' dwedodd ei fam pan ofynnodd Dafydd wrthi hi os oedd o'n gallu eu cadw nhw. 'Mae angen i ni gael gwared â nhw,' dwedodd hi.

Mi gwylodd Dafydd mewn arswyd pan oedd y cathod bach tlawd yn cael eu boddi mewn bwced o ddwr.

'Dydw i ddim ar fai,' dwedodd ei fam, 'dylet ti ddim wedi dwad â nhw yma, bachgen twp!'

Bob yn dipyn, roedd Dafydd wedi colli calon. Oedd ei fam yn iawn? Roedd o'n teimlo fel pe bai fod o'n person drwg. Tasai fod o'n person da, fasai hi'n ei garu fo, ni fasai hi?

Doedd pethau ddim yn gwella pan oedd Dafydd yn tyfu i fyny achos roedd ei fam yn dod yn mwyfwy anodd i blesio pan oedd ei ieched yn gwaethygu. Roedd hi'n dibynnu ar ei mab i'w gwarchod hi, ond doedd hi ddim yn diolchgar iddo fo, a roedd ei thafod mwy finigog nag erioed.

'Rhaid i ti gael gwared â 'r ferch', gorchmynodd hi, pryd bynnag wnaeth Dafydd dwad â merch adre i gyfarfod ei fam. 'Dydy hi ddim yn addas i ti.'

Bob amser, wnaeth Dafydd cydsynio efo'r gorchmynion ei fam yn teimlo'n druenus a fwy unig nag erioed. Efallai byddai fo ar ei ben ei hun am byth.

Hyd yn oed ar ôl i'w fam wedi marw, roedd ei llais yn parhau i dafodi fo; doedd o ddim yn gallu gwneud dim byd yn iawn. Er enghraifft, doedd ei waith mewn swyddfa ddim yn ddi-gon da, yn ei barn hi.

'Dylet ti wedi gweithio'n well yn yr ysgol,' dwedodd y llais wrtho fo, 'fyddi di byth yn llwyddo i wneud dim byd. Wnes i ddweud wrthot ti ar y pryd, ond oeddet ti'n gwranddo? Nag oeddet! Roeddet ti'n meddwl bod ti'n gwybod yn well. Wel, rwan ti'n sylweddoli bod fi'n iawn.'

Pan oedd Dafydd yn dweud wrth ffoto ei fam, bod cafodd ei dyrchafiad yn y gwaith, roedd o'n gwybod bod hi ddim yn hapus.

'Nid cyn pryd!' wnaeth ei llais yn glaswenu. 'ond ... mi fyddan nhw'n darganfod bod ti'n dim gwerth.'

Yn nes ymlaen pan, yn anffodus, cafodd ei ddiswyddo, roedd y llais yn gorfoleddus.

'Roeddwn i'n dweud, wastad, bod ti'n diwerth,' dwedodd o. 'Efallai rwan, mi fyddi di'n gwybod pa mor anodd bod fy mywyd.'

Roedd Dafydd yn trio, fel arfer, i gau allan y llais ac anwybyddu'r swm ofnadwy; roedd o'n casáu'r ailadroddiad o ei feiau.

Rwan, yn ei fflat fach, edrychodd o eto ar y clustdlws wedyn wnaeth o roi fo yn ôl yn y dysgl las a gwyn efo'r llall. Roedd Sadie wedi eu symud nhw cyn iddi hi fynd i mewn i'r ystafell wely. Wnaeth Dafydd ei dilyn hi rwan a gorwedd ar y gwely yn teimlo ei gwres hi fel blanced glyd. Roedd llais Sadie yn feddal a galonogol pan roedden nhw'n rhannu eu momentau gyntaf o garu.

Wedyn, roedden nhw'n teimlo'n ymlacio ac yn fodlon, efo gobeithion uchel am ddyfodol gyda'i gilydd. Ond, unwaith eto, clywodd Dafydd y sŵn dychrynlyd.

'Rhaid i ti gael gwared â hi, ar unwaith' dwedodd y llais. 'Wyt ti'n gallu fy nghlywed i?'

Ond roedd y llais yn wan rwan, efo dim ond adlais llewygu o'r hen sbeit. Pan oedd y llais yn cilio'n ôl, roedd Dafydd yn gwybod na fyddai byth yn ei glywed o eto achos roedd o wedi ffeindio'r cariad fod o wedi eisiau ers blynnyddoedd. Roedd o'n teimlo'n siŵr byddai gyda hi am weddill ei oes.

*Marlene yn derbyn ei gwobr gan Hilary Jones*

